

amserbeibl

Storiâu o'r Beibl – Safon 2

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Lliwiwch y lluniau yn y storïau hyn o'r Efengylau

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th



DARLLENWCH
Luc 4: 38-44




ADNOD
ALLWEDDOL
Actau 10: 38

Gofynnwch i rywun
eich helpu i ddod o hyd
i'r adnodau hyn.

Stori I Pobl y cwrddodd Iesu â nhw – Gwraig sâl.

Ble bynnag roedd Iesu'n mynd, roedd yn gwneud gwyrthiau. Roedd yn gwella llawer o bobl ac yn helpu pobl eraill. Un Sabath, fe wnaeth Iesu wella dyn yn y synagog. Yn nes ymlaen, cafodd groeso yng nghartref Simon. Cafodd Andreas, Iago a Ioan wahoddiad hefyd. Ond roedd problem. Roedd mam yng nghyfraith Simon yn sâl yn y gwely. Roedd ei gwres yn uchel. Roedd salwch fel ffliw gwael arni. Gofynnnon nhw i Iesu ei gwneud hi'n well. Cyffyrrddodd Iesu â'i llaw hi a siarad â'r salwch. Yna, helpodd Iesu hi i godi. Aeth y gwres ac fe gododd hi a dechrau gwneud bwyd iddyn nhw. Dyna wyrth arall!



4


C Lliwiwch y llun a llenwi'r bylchau yn y GRID GEIRIAU'.

1 ar draws. Aeth Iesu i _____ Simon.


2. Gofynnnon nhw i Iesu _____ mam yng nghyfraith Simon.

3. Cyffyrrddodd Iesu â'i _____ hi.

I i lawr. Helpodd Iesu hi i _____.



4



Roedd hi'n dechrau tywyllu. Roedd pobl yn dod â'u ffrindiau a'u perthynasau sâl at lesu. Gallai lesu fod wedi eu troi nhw i ffwrdd. Roedd wedi cael diwrnod prysur. Ond rhoddodd ei ddwylo ar bob un ohonyn nhw a'u gwella. Roedd lesu'n cyffwrdd â nhw i gyd ac yn eu gwneud nhw'n well.

C Rhowch ✓ neu X i ddangos a yw'r brawddegau hyn yn gywir neu'n anghywir.

Pan oedd hi'n tywyllu, daeth pobl eraill at lesu.

Dywedodd lesu wrth y bobl am adael llonydd iddo.

Cafodd pawb eu gwella gan lesu.

6

Drannoeth, cododd lesu'n gynnar. Roedd am chwilio am le tawel i weddio ar ei Dad. Hyd yn oed yno, chafodd e ddim llonydd. Roedd pobl yn heidio i'w weld. Roedd pobl yn dod at lesu gan fod ganddo nerth mawr.



C Yn y frawddeg hon, mae angen rhoi un llythyren ar bob llinell. Rhowch y geiriau hyn yn y lle iawn.

diafol

iacháu

Duw

Roedd yn mynd o gwmpas yn gwneud daioni ac yn _____ pawb

oedd yn dioddef am fod y _____ yn eu poeni nhw.

Roedd _____ gydag e!

Dyma beth y mae'r Adnod Allweddol yn ei ddweud. Ydych chi wedi dod o hyd iddi?

6

amserbeibl

Storiâu o'r Beibl – Safon 2

Enw _____



DARLLENWCH
Luc 5: 12-16



ADNOD
ALLWEDDOL
Luc 7: 22

Gofynnwch i rywun
eich helpu i ddod o hyd
i'r adnodaau hyn.

Stori 2 Pobl y cwrddodd Iesu â nhw – Dyn â'r gwahanglwyr

Pan fydd plant yn cael y frech goch neu frech yr ieir, dydyn nhw ddim yn cael mynd i'r ysgol na chymysgu â phobl eraill rhag ofn iddyn nhw roi'r salwch i rywun arall. Yn nyddiau lesu, roedd salwch heintus o'r enw'r gwahanglwyr. Os oedd y gwahanglwyr arnoch, doeddech chi ddim yn cael byw gyda'ch teulu na mynd i weithio. Un diwrnod, cwrddodd lesu â dyn oedd yn dioddef yn ddrwg o'r gwahanglwyr. Pan welodd y dyn lesu, syrthiodd ar ei bengliniau o'i flaen a gofyn i lesu ei wella. Dywedodd, "Arglywydd, galli di fy ngwneud i'n iach os wyt ti eisiau."



C Yn y swigen siarad, ysgrifennwch y geiriau a ddywedodd y dyn wrth lesu.

"A _____,
g _____ d _____
f _____ ng _____ i'n i _____
o _____ w _____ t _____ e _____."

6



Wedyn, gwnaeth lesu rywbeth rhyfeddol. Cyffyddodd â'r dyn. Efallai y bydden ni'n poeni y byddai lesu'n dal yr afiechyd; ond na! Yn lle hynny, dywedodd "Dyna dw i eisiau. Bydd lân!" Cafodd y dyn ei wella ar unwaith. Dyna un arall o wyrthiau mawr lesu!

C Llanwch yr atebion yn y croesair bach yma.

I lawr.

1. Beth oedd enw'r salwch oedd ar y dyn?

Ar draws.

1. Beth ydyn ni'n galw'r ffordd yma oedd gan lesu o wella pobl?
2. Beth wnaeth y dyn alw lesu?
3. Ar ôl i lesu gyffwrdd ag ef,
roedd y dyn yn ___ yn syth.

1

2

3


8

Yma eto, roedd lesu'n dangos ei nerth mawr. Roedd yn gallu newid bywydau pobl a'u gwneud yn newydd.

Mae'n gallu newid ein bywydau ni a maddau'n pechodau ni os down ni ato fel y dyn â'r gwahanglwyr a'i drystio.

Dyweddodd lesu wrth y dyn am fynd at yr offeiriad i ddangos ei fod yn well.

Wedyn, byddai'n cael mynd nôl at ei deulu ac i'w waith. Byddai'n cofio'r diwrnod y cwrddodd e â lesu am byth.



C Llanwch y bylchau yn y brawddegau hyn.

Dangosodd yr Arglwydd lesu ei n ___ mawr.

Mae lesu'n gallu maddau p _____.

6

Byddai'r dyn yn cofio'r diwrnod y cwrddodd e â I ___ am byth.

amserbeibl

Storiâu o'r Beibl – Safon 2

Enw _____



DARLLENWCH
Luc 5: 17-26




ADNOD
ALLWEDDOL
Luc 5: 24

Gofynnwch i rywun
eich helpu i ddod o hyd
i'r adnodaau hyn.

Stori 3 Pobl y cwrddodd Iesu â nhw – Dyn oedd yn methu symud



Mae'n siwr ei bod hi'n gyffrous i'r disgylion gael treulio amser gyda lesu. Doeddech chi byth yn siwr beth oedd yn mynd i ddigwydd nesa. Un tro, roedd llawer o bobl wedi dod i wrando ar



Iesu'n siarad â nhw mewn tŷ. Doedd dim digon o le i bawb y tu mewn i'r tŷ. Roedd rhai'n sefyll o gwmpas y drws. Clywodd pedwar dyn bod lesu yno a phenderfynu mynd â'u ffrind oedd yn methu symud ato. Roedd y dyn yn gorwedd ar ei wely. Doedden nhw ddim yn gallu mynd i mewn trwy'r drws am fod gormod o bobl yno. Felly dyma nhw'n cario'u ffrind i ben y to fflat. Yno, fe wnaethon nhw dwll yn y to a gollwng eu ffrind i lawr trwy'r twll ar ei wely fel bod lesu yn ei weld.

C Llanwch y bylchau yn y brawddegau hyn.

y tu mewn

y tu allan

1. Roedd Iesu _____ i'r tŷ yn dysgu'r bobl.

Roedd llawer o bobl yn sefyll _____.


to Iesu pedwar

2. Gwnaeth _____ o ddynion dwll yn y _____ a gollwng eu ffrind i lawr o flaen _____.

methu symud o flaen

Glaniodd y dyn oedd yn _____ reit _____ lesu.

C Ysgrifennwch lythyren gyntaf y pethau isod i weld beth oedd wedi plesio lesu am y pedwar dyn a'u ffrind.



2

Dyweddodd lesu wrth y dyn, "Mae dy bechodau wedi eu maddau, ffrind." Doedd yr arweinwyr crefyddol ddim yn hapus pan ddywedodd lesu hynny. Roedden nhw'n meddwl mai dim ond Duw oedd yn gallu maddau pechodau. Yng ngeiriau'r Adnod Allweddol, esboniodd lesu ei fod e'n gallu maddau pechodau.

C Lliwiwch y geiriau a dysgwch nhw.

"Mae gen i,
Mab y Dyn,
hawl i faddau
pechodau ar
y ddaear."

4

Luc 5:24

Er mwyn profi wrthyn nhw ei fod yn gallu maddau pechodau, dywedodd lesu wrth y dyn oedd yn methu symud am sefyll ar ei draed. Roedd pawb yn synnu pan welon nhw e'n codi ar ei draed. Aeth adre gan foli Duw.

Mae lesu'n gallu maddau ein pechodau ni hefyd. Mae e eisiau i ni ddifaru ein bod wedi gwneud pethau drwg a diolch iddo fe am farw ar y groes i faddau'n pechodau ni.



amserbeibl

Storiâu o'r Beibl – Safon 2

Enw _____



DARLLENWCH
Luc 5: 27-32



ADNOD
ALLWEDDOL
Luc 5: 32

Gofynnwch i rywun
eich helpu i ddod o hyd
i'r adnodaau hyn.

Stori 4 Pobl y cwrddodd Iesu â nhw – Mathew

Roedd rhai pobl yn rhyfeddu at y pethau yr oedd yr Arglwydd Iesu'n eu gwneud ac yn eu dweud. Roedd rhai yn gadael eu gwaith a hyd yn oed eu cartrefi i'w ddilyn e. Dyma stori un o'r dynion hynny. Lefi oedd ei enw e ond roedd e'n cael ei alw'n Mathew hefyd.

Un diwrnod, roedd Mathew'n eistedd wrth ochr y ffordd yn casglu trethi. Y Rhufeiniaid oedd yn rheoli'r wlad ac roedd pobl yn dod at Mathew i dalu'r trethi yr oedd y Rhufeiniaid yn eu codi.

Doedd neb yn hoff iawn o Mathew gan ei fod e'n gweithio i'r gelyn, y Rhufeiniaid.

Roedd e'n amhoblogaidd hefyd am ei fod e'n cadw peth o'r arian yr oedd pobl yn ei dalu iddo yn lle'i roi i'r Rhufeiniaid. Felly, roedd e'n lleidr.



C Rhowch y llythrennau yn eu trefn gywir.

Enw arall ar Lefi T M A W H E _____.

Roedd Mathew'n casglu'r rhain R E T H I T _____.

Roedd Mathew'n gweithio i'r rhain

D I N F E R H I U A I _____.

Roedd rhai pobl yn meddwl bod Mathew'n R I D LL E _____.

8



Daeth Iesu at Mathew a dweud wrtho, "Dilyn fi." Doedd Mathew ddim yn gallu credu ei glustiau! Meddyliodd, "Ydi Iesu wir eisiau i ddyn fel fi ei ddilyn e? Oes ots gan Iesu amdana i?"

Penderfynodd Mathew, os oedd Iesu'n gofyn iddo, byddai'n mynd gydag e ar unwaith. Cododd a dilyn Iesu gan adael popeth.

Gwnaeth Mathew dri pheth pan ddywedodd lesu "Dilyn Fi."

C Rhowch y brawddegau hyn yn y drefn gywir trwy roi'r rhifau 1 – 3 yn y blychau.

- Dilynodd Mathew lesu
- Gadawodd Mathew bopeth
- Cododd Mathew



6

Yn nes ymlaen y diwrnod hwnnw, cafodd Mathew barti mawr. Roedd arno eisiau i'w ffrindiau i gyd gwrdd â lesu. Roedd yr arweinwyr crefyddol yn cwyno am fod lesu'n cymysgu gyda "pêchaduriaid" fel hyn. Atebodd lesu yng ngeiriau'r Adnod Allweddol.

C Lliwiwch y geiriau a dysgwch yr adnod.

"Dw i wedi dod i
alw pechaduriaid
i droi at Dduw,
dim y rhai sy'n
meddwl eu bod
nhw heb fai."

6

Luc 5:32

Dydi lesu ddim yn hoffi pechod – y pethau drwg rydyn ni'n eu gwneud. Mae lesu wedi marw er mwyn maddau ein pechodau ni. Fel Mathew, dylen ni ddilyn lesu a gofyn iddo faddau ein pechodau ni.

cyfanswm

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services, P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffôn i 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.

Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygydd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o www.amserbeibl.org

Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Powys LL53 6SH ☎ 01766 819120